



LEFEL 3 DIPLOMA

4463N60-1A

MEHEFIN 2023

GWYDDOR FEDDYGOL UNED 6 (Cyflyrau Meddygol)

I'w defnyddio gydag arholiad
Uned 6: Astudiaeth Achos Feddygol

**Erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i'w defnyddio yn yr
arholiad canlynol ar ddydd Llun, 5 Mehefin 2023**

Lefel 3 Diploma mewn Gwyddor Feddygol

Dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oed

Mae dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oed (*age-related macular degeneration*: AMD) yn gyflwr llygaid cyffredin sydd fel arfer yn effeithio ar bobl yn eu 50au a'u 60au. Mae hyn yn gallu digwydd yn raddol neu dros lawer o flynyddoedd (AMD sych), neu'n sydyn dros rai wythnosau neu fisoedd (AMD gwlyb).



Symptomau AMD

Mae AMD yn effeithio ar y rhan ganol o'r golwg (*vision*), nid yr ymylon (golwg ymylol). Mae'n gallu bod yn bresennol mewn un llygad neu'r ddau. Mae AMD yn golygu bod pethau fel darllen, gwyllo'r teledu, gyrru neu adnabod wynebau yn gallu bod yn anodd.

Mae symptomau eraill yn cynnwys:

- llinellau syth yn edrych yn donnog neu'n gam
- gwrthrychau (*objects*) yn edrych yn llai nag arfer
- lliwiau'n edrych yn llai llachar nag arfer
- rhithweledigaethau (*hallucinations*) – sef gweld pethau sydd ddim yno

Dydy AMD ddim yn boenus nac yn effeithio ar ymddangosiad (*appearance*) y llygaid.

Beth sy'n achosi AMD

Does neb yn gwybod beth sy'n achosi AMD. Mewn claf ag AMD, mae'r pibellau gwaed yn y retina'n mynd yn fwy athraidd neu'n 'gollwng'. Mae gormod o brotein o'r enw ffactor twf endothelaidd fasgwlar (*vascular endothelial growth factor*: VEGF) yn cael ei gynhyrchu, sy'n gwneud y pibellau gwaed yn fwy athraidd ac yn annog pibellau gwaed newydd i dyfu. Mae pibellau gwaed newydd a phibellau gwaed mwy athraidd yn gallu achosi niwed i'r retina. Mae rhai ffactorau'n cynyddu'r risg o ddatblygu AMD. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mynd yn hŷn
- hanes teuluol
- ysmegu
- clefydau cardiofasgwlar

Rhoi diagnosis o AMD

Os yw meddyg teulu'n amau AMD, bydd yn atgyfeirio (*refer*) claf at optometrydd. Bydd yr optometrydd yn archwilio'r llygad ac yn profi golwg y claf gan ddefnyddio lensiau gwahanol a siart darllen. Yn ystod yr archwiliad, efallai bydd yr optometrydd yn rhoi diferion yn y llygaid sy'n cynnwys cyffur o'r enw tropicamid. Mae'n bosibl y bydd yn defnyddio tonometreg hefyd. Weithiau, mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio at offthalmolegydd. Mae angen gwneud hyn os oes posibilrwydd bod angen triniaeth yn gyflym neu os oes angen profion eraill, fel prawf angiograffig ar y llygad.

Triniaethau ar gyfer AMD

AMD sych – does dim triniaeth, ond gall cymhorthion golwg (*vision aids*) helpu i leihau effaith AMD.

AMD gwlyb – dydy'r driniaeth ddim yn iachâu (*cure*) y cyflwr ond mae'n ceisio arafu ei ddatblygiad. Mae'n bosibl rhoi pigiadau mewnlygadadol rheolaidd â chyffuriau gwrth-VEGF, er enghraifft ranibizumab. Hefyd, mae'n bosibl defnyddio triniaeth arall sy'n defnyddio pylsiau golau (*light pulses*), o'r enw therapi ffotodynamig, i stopio golwg y claf rhag gwaethygu.

Byw gydag AMD

Bydd arbenigwr llygaid hefyd yn atgyfeirio claf ag AMD at glinig golwg isel (*low-vision clinic*). Bydd y clinig yn rhoi cyngor defnyddiol a chefnogaeth ymarferol i gleifion sydd ag AMD.

Cerrig ar yr arennau

Mae cerrig ar yr arennau (*kidney stones*) yn gallu datblygu mewn un aren neu yn y ddwy. Maen nhw fel arfer yn effeithio ar bobl dros 30 oed.

Symptomau cerrig ar yr arennau

Mae'n bosibl na fydd cerrig bach iawn ar yr arennau yn cael eu canfod, ac y byddan nhw'n gadael y corff heb boen pan mae'r claf yn troethi (*urinates*). Mae cerrig mwy o faint ar yr arennau'n gallu achosi symptomau, gan gynnwys:


- poen yn ochr yr abdomen neu gesail y forddwyd (*groin*)
- tymheredd uchel
- poen abdomenol difrifol sy'n mynd a dod
- teimlo'n sâl (*sick*) neu chwydu
- haint yn y troeth, yn aml gyda gwaed yn y troeth

Mae carreg ar yr arennau'n gallu rhwystro (*block*) yr wreter ac achosi haint yn yr arennau. Mae hyn yn digwydd oherwydd nad yw cynhyrchion gwastraff yn gallu mynd heibio i'r rhwystr, sy'n gallu achosi i facteria Gronni (*build-up*).

Beth sy'n achosi cerrig ar yr arennau

Mae'r risg o ddatblygu cerrig ar yr arennau'n cynyddu os nad yw claf yn yfed digon o hylif. Mae cerrig ar yr arennau'n amrywio o ran maint, siâp a lliw. Mae rhai fel gronynnau tywod, ond mewn achosion prin, mae eraill yn gallu tyfu i faint pêl golff. Dyma'r prif fathau o gerrig ar yr arennau:

- cerrig calsiwm, y math mwyaf cyffredin o garreg
- cerrig strwfit, sydd fel arfer yn cael eu hachosi gan haint
- cerrig asid wrig, sy'n aml i'w cael yn y bledren ac yn gallu cael eu hachosi gan fwydydd penodol
- cerrig cystein



Rhoi diagnosis o gerrig ar yr arennau

Fel arfer, bydd meddyg teulu'n gallu rhoi diagnosis o gerrig ar yr arennau yn seiliedig ar symptomau claf a'i hanes meddygol. Mae profion diagnostig yn cynnwys:

- samplau troeth syml gan ddefnyddio trochbren (*dipstick*) er mwyn gwirio am sylweddau yn y troeth gan gynnwys glwcos, protein ac ïonau
- astudiaethau wroddynamig syml a chymhleth fel mesur cydymffurfiad y bledren (*compliance of the bladder*).
- archwilio unrhyw gerrig sy'n dod allan o'r corff yn y troeth
- profion gwaed er mwyn gwirio bod yr arennau'n gweithio'n iawn, mesur crynodiad ADH yn y gwaed a lefelau sylweddau fyddai'n gallu achosi cerrig ar yr arennau

Trin cerrig ar yr arennau

Mae'r rhan fwyaf o gerrig ar yr arennau'n ddigon bach i adael y corff yn y troeth ac mae'n bosibl trin hyn gartref. Er mwyn lleihau'r symptomau, byddai meddyg teulu'n gallu argymhell:

- yfed digon o hylifau drwy gydol y dydd
- cyffuriau lladd poen dros y cownter, fel ibuprofen
- alffa-atalydd (*alpha-blocker*) fel tamsulosin sy'n helpu'r cerrig i adael y corff

Atal cerrig ar yr arennau

Y ffordd orau o atal cerrig ar yr arennau yw yfed digon o ddŵr bob dydd er mwyn osgoi dadhydradu. Er mwyn atal cerrig rhag dod yn ôl, dylai pobl yfed tri litr o hylif drwy gydol y dydd.

Leptospirosis (clefyd Weil)

Haint yw leptospirosis. Mae'n cael ei ddal yn anuniongyrchol (*indirectly*) gan anifeiliaid, fel arfer llygod mawr, llygod, gwartheg, moch a chŵn. Mae'n un o'r heintiau mwyaf cyffredin yn y byd, yn enwedig mewn ardaloedd fel y Caribî, America Ladin, ac isgyfandir India lle mae'r dŵr yn fwy cynnes.

Symptomau leptospirosis


Y symptom mwyaf cyffredin yw twymyn (*fever*). Mae symptomau eraill yn cynnwys:

- cur pen (*headache*)
- cyfog (*nausea*) a chwydu
- poen yn y cyhyrau a'r cymalau
- llygaid coch
- colli archwaeth (*appetite*)

Mae leptospirosis difrifol yn gallu achosi methiant llawer o organau a marwolaeth.

Beth sy'n achosi leptospirosis

Haint bacteriol yw leptospirosis; mae'n cael ei achosi gan facteria gram-negatif o'r genws *Leptospira*. Y ffordd fwyaf cyffredin o ddal leptospirosis yw dod i gysylltiad â dŵr croyw neu bridd halogedig (*contaminated*). Fel arfer, mae hyn yn golygu bod troeth wedi'i heintio'n mynd i mewn i geg neu lygaid y claf, neu i archoll (*cut*). Mae hyn yn gallu digwydd yn ystod gweithgareddau fel caiacio, nofio awyr agored, neu bysgota. Yn llai cyffredin, mae haint yn gallu digwydd wrth weithio gydag anifeiliaid neu ddarnau o anifeiliaid, neu mewn swyddi lle mae pobl yn dod i gysylltiad â dŵr halogedig. Mae'n eithaf prin yn y DU (*UK*), ond mae wedi bod yn cynyddu ymhlith pobl ar wyliau (*holiday-makers*).



Rhoi diagnosis o leptospirosis

Bydd meddyg teulu'n rhoi diagnosis o leptospirosis ar ôl ystyried y symptomau mae'r claf yn eu dangos a'r risg bod y claf wedi dod i gysylltiad â chyflenwadau dŵr halogedig. Mae'n glefyd hysbysadwy (*notifiable*), ac mae samplau gwaed yn cael eu hanfon at y Gwasanaeth Leptospirosis Cenedlaethol i gadarnhau'r diagnosis. Mae'r diagnosis yn cael ei gadarnhau drwy wneud un o'r canlynol:

- profi am DNA *Leptospira*
- ELISA
- meithriniaid microbiolegol o'r bacteria *Leptospira*

Trin leptospirosis

Mae meddyg teulu'n gallu rhoi presgripsiwn ar gyfer gwrthfotigau fel docsiseiclin neu benisilin. Fel arfer, bydd y claf wedi gwella'n llwyr mewn rhai dyddiau neu wythnosau. Mae'n bosibl cymryd cyffuriau lladd poen dros y cownter i leihau'r dwymyn. Os oes haint mwy difrifol yn bresennol, efallai bydd angen gwrthfotigau mewnwythiennol (*intravenous*), sydd fel arfer yn cael eu rhoi yn yr ysbyty.

Atal leptosbirosis

Er mwyn atal haint, mae angen dilyn y gweithdrefnau canlynol:

- golchi dwylo â sebon a dŵr ar ôl trin anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid
- glanhau unrhyw glwyfau (*wounds*) cyn gynted â phosibl a gorchuddio pob archoll a chrafiad (*graze*)
- peidio â chyffwrdd ag anifeiliaid marw â dwylo noeth (*bare hands*)
- peidio ag yfed dŵr heb ei drin o afonydd, camlesi neu lynnoedd.